# YMATEB DA I SYNIAD MÊTS-IAITH

Cafwyd ymateb da i M□ts-Iaith, un o gynlluniau **Cadwn Felin Dros 70%-** yn ystod diwrnod carnifal  Gŵyl y Felin ddydd Sadwrn.

Pwrpas M□ts-Iaith yw dod â Chymry Cymraeg a dysgwyr Cymraeg at ei gilydd ar sail didddordebau cyffredin, gan defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwneud. Mae'n gyfle i symud y Gymraeg allan o'r ystafell ddosbarth i'r gymuned, a'i gysylltu hefo pethau y mae dysgwyr yn mwynhau eu gwneud!

Dyma'r diddordebau sydd wedi eu cynnig a'r unigolion sydd wedi cytuno i ddod at ei gilydd i'w gwneud hyd yma:

CERDDED: Graham Finch, Llinos Wynne

TYNNU LLUNIAU: Brian Robinson

CYMDEITHASU:  Dylan Huws, Llinos Wynne, Huw Jones

BEICIO: Nigel Jones, Gwil John

GOLFFIO: Aled Jones, Iwan Huws

HANES LLEOL: Wyn Jones

DYSGU AR GARLAM:  Robin Jones, Aled G Jôb

TRAFOD BARDDONIAETH: Hywel Lewis Jones

GARDDIO: Catherine Jones

Y syniad ydi trefnu gweithgareddau unwaith y mis a'r gobaith ydi y gwelir rhai o'r gweithgareddau cyntaf ymhen rhai wythnosau.

Dan ni'n chwilio am fwy o Gymry lleol i helpu hefo hyn! Os hoffech chi helpu hefo un o'r gweithgareddau uchod neu gynnig gweithgaredd eich hun, danfonwch neges at:
nigeljones@instantemail.t-mobile.co.uk
neu aled.job@btopenworld.com